

Cyflwyniad i'r OIA i fyfyrwyr



Contents

Cyflwyniad	3
Ynglŷn â'r OIA	5
A allaf gwyno wrth yr OIA am fy narparwr addysg uwch?	6
A yw'n gwneud gwahaniaeth pa gwrs rwyf yn ei astudio gyda fy narparwr addysg uwch?	6
A allaf gwyno wrth yr OIA am bethau a ddigwyddodd cyn i fy narparwr ymuno â Chynllun yr OIA?	7
A all rhywun gwyno wrth yr OIA ar ran myfyriwr?	7
Pa fath o gŵynion y gall yr OIA ymdrin â hwy?	8
A oes unrhyw gŵynion na all yr OIA ymdrin â hwy?	9
Beth os ydw i'n mynd at yr OIA gyda chwyn ynglŷn â gwahaniaethu?	10
Sut rydw i yn cwyno wrth yr OIA?	10
Pa wybodaeth y dylwn ei chynnwys gyda Ffurflen Gwyno'r OIA?	11
A oes terfynau amser ar gyfer cwyno wrth yr OIA?	12
A yw'n costio unrhyw beth i gyflwyno cwyn?	13
Beth sy'n digwydd ar ôl i mi anfon Ffurflen Gwyno'r OIA atoch?	13
Sut y mae'r OIA yn adolygu cwynion?	14
Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i ystyried fy nghwyn?	14
A yw'r OIA yn cynnal gwrandawiau llafar?	15
Beth all yr OIA ei wneud ynglŷn â'm cwyn?	15
A oes yn rhaid i ddarparwr gydymffurfio â'ch penderfyniad?	16
A allaf dynnu fy nghwyn yn ôl?	17
A allaf gael help i wneud cwyn?	17
Beth os ydw i'n anfodlon â'r ffordd y cafodd fy nghwyn ei thrafod?	17

Cyflwyniad

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch (OIA) yn darparu Cynllun annibynnol, tryloyw i adolygu cwynion myfyrwyr yn erbyn sefydliadau addysg uwch unigol.

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd ynglŷn â'n proses adolygu i fyfyrwyr neu'u cynrychiolwyr sydd eisiau gwneud cwyn am ddarparwr Addysg Uwch sy'n aelod. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Rheolau sydd ar gael ar ein gwefan (<http://www.oiahe.org.uk/decisions/leaflets.aspx>). Os bydd gwrthdaro rhwng y daflen hon a'r Rheolau, y Rheolau fydd drechaf.

Cyn gwneud cwyn, a wnewch chi sicrhau'r canlynol:

- A all yr OIA ymdrin â'r gŵyn?
- A ydych chi wedi cwblhau gweithdrefnau apelio neu gwyno mewnol y darparwr?
- A yw'r darparwr wedi anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch?

I gwyno:

- Rhaid llenwi Ffurflen Gwyno'r OIA a'i llofnodi (neu dicio'r blwch os ydych chi'n defnyddio ffurflen ar-lein) a'i hanfon atom gyda chopi o'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.
- Rhaid anfon Ffurflen Cwyno'r OIA atom yn brydlon.
- Rhaid amgáu copi o'r gŵyn neu'r apêl wreiddiol a gyflwynwyd gennych i'r darparwr, os yw ar gael.

Gallwn ddarparu ein llynyddiaeth ar wahanol fformatau. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn neu ynglŷn â'n proses gwynion ar enquiries@oiahe.org.uk neu ar **0118 959 9813**.

Ynglŷn â'r OIA

Dynodwyd yr OIA yn weithredwr y Cynllun Cwynion Myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr o dan adran 13 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a hynny'n weithredol o 1 Ionawr 2005. Mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015, y daeth yr adran berthnasol ohoni i rym ar 1 Medi 2015, yn ymestyn yr ystod o ddarparwyr addysg uwch y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan yn y Cynllun. Er rhywyddineb cyfeirio, defnyddiwn y term 'darparwr' neu 'darparwr addysg uwch' drwy'r daflen hon.

Nid yw'r OIA yn llys a gall ei chanlyniadau fod yn wahanol i'r rhai hynny a benderfynir gan llys.

Ceir rhestr o'r holl ddarparwyr sy'n cymryd rhan ynghyd â rhagor o wybodaeth am y Cynllun ar ein gwefan

(<http://www.oiahe.org.uk/about-us/default.aspx>).

A allaf gwyno wrth yr OIA am fy narparwr addysg uwch?

Ceir rhestr lawn o'r darparwyr y gallwn dderbyn cwynion amdanynt yn <http://www.oiahe.org.uk/about-us/oia-scheme-members.aspx>.

Cewch wneud cwyn

- os ydych neu oeddech yn fyfyrwr gyda'r darparwr rydych yn cwyno amdano; neu
- os ydych neu oeddech yn astudio ar gwrs a oedd yn arwain at roi un o ddyfarniadau'r darparwr rydych yn cwyno amdano.

A yw'n gwneud gwahaniaeth pa gwrs rwyf yn ei astudio gyda fy narparwr addysg uwch?

Mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015, y daeth yr adran berthnasol ohoni i rym ar 1 Medi 2015, yn ymestyn aelodaeth y cynllun i gynnwys llawer o Golegau Addysg Bellach a Cholegau Chweched Dosbarth, darparwyr amgen a darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon mewn Ysgolion. Dim ond cwynion gan fyfyrwr addysg uwch (yn y darparwyr hyn) y caiff yr OIA eu hystyried. Caiff myfyrwr sydd yn astudio, neu a oedd yn astudio, mewn prifysgol, gwyno am y brifysgol honno beth bynnag yw'r cwrs y maent neu yr oeddent yn ei astudio.

A allaf gwyno wrth yr OIA am bethau a ddigwyddodd cyn i fy narparwr ymuno â Chynllun yr OIA?

Os ydych yn gwneud cwyn am bethau a ddigwyddodd cyn i'r darparwr fod yn aelod o'r Cynllun, ni fydd yr OIA yn ystyried y gŵyn heblaw ei fod yn ymwneud â chyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig (neu batrwm o ymddygiad) a barhaodd ar ôl i'r darparwr ymuno â'r Cynllun.

Mae ein rhestr aelodau (<http://www.oiahe.org.uk/about-us/list-of-hei.aspx>) yn dangos pa ddyddiad yr ymunodd pob aelod â'r Cynllun.

A all rhywun gwyno wrth yr OIA ar ran myfyriwr?

Mae'n well i fyfyrwyr ymdrin â'u cwynion eu hunain. Er hynny, cewch benodi cynrychiolydd, e.e. cynrychiolydd undeb myfyrwyr, trwy lenwi adran dau ar Ffurflen Gwyno'r OIA. Bydd angen i chi sicrhau bod eich cynrychiolydd yn gwybod popeth am y gŵyn, yn fodlon eich cynrychioli ac yn sicrhau eich bod chi'n cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf gan mai dim ond â'r cynrychiolydd y byddwn yn gohebu wedi i chi ei benodi.

Mae ein gweithdrefnau'n anffurfiol ac ni ddylai fod angen i chi gael cynrychiolydd cyfreithiol. Am y rheswm hwn, ni fyddwn fel rheol yn argymhell y dylai darparwr gyfrannu at eich costau cyfreithiol hyd yn oed os ceir bod Cyfiawnhad dros yr achos.

Pa fath o gŵynion y gall yr OIA ymdrin â hwy?

Byddwn yn adolygu cwynion ynglŷn â gweithredoedd a hepgoriadau darparwyr. Gall y rhain gynnwys:

- Rhaglen astudio
- Gwasanaeth a ddarparwyd gan ddarparwr i fyfyrwr
- Penderfyniad terfynol gan gorff disgyblu neu apêl prifysgol.

Nid yw'r OIA yn llys a gall ei chanlyniadau fod yn wahanol i'r rhai hynny a benderfynir gan lys. Corff adolygu yw'r OIA. Mae hyn y golygu y byddwn yn ystyried sut y mae'r darparwr wedi delio â'ch cwynion/apêl y myfyriwr a'i benderfyniad terfynol. Yr hyn a ddigwyddodd cyn i'r Llythyr Gwblhau Gweithdrefnau gael ei roi fydd canolbwynt ein hadolygiad. Nid apêl pellach i'ch darparwr addysg uwch yw ein Cynllun. Rydym yn darparu Cynllun adolygu annibynnol a'n prif rôl ni yw ystyried a yw'r darparwr wedi gweithredu ei reoliadau a dilyn ei gweithdrefnau yn gywir ac a yw'r canlyniad yn rhesymol o dan amgylchiadau.

Mae'r cwynion y gallwn edrych arnynt yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Apeliadau academiaidd
- Amgylchiadau arbennig
- Darpariaeth a chyfleusterau addysgu
- Llety
- Goruchwyllo ymchwil
- Lles
- Gwahaniaethu (ond gweler isod)
- Bwlio ac aflonyddu
- Lleoliadau
- Afreoleidd-dra gweithdrefnol
- Arferion annheg
- Materion disgyblu, gan gynnwys llên-ladrad
- Prosesau yn ymwneud â bod yn addas i ymarfer.

A oes unrhyw gwynion na all yr OIA ymdrin â hwy?

Ni allwn edrych ar gwynion ynglŷn â:

- Derbyniadau
- Barn academiaidd neu ansawdd addysgu
- Cyflogaeth myfyrwyr
- Materion a ystyriwyd eisoes gan lys neu dribiwnlys, onid ydynt wedi eu hatal yn ffurfiol.

Beth os ydw i'n mynd at yr OIA gyda chwyn ynglŷn â gwahaniaethu?

Wrth ystyried materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu nid yw'r OIA yn gweithredu fel llys. Nid yw'n ymchwilio nac yn dod i gasgliadau cyfreithiol yn yr un modd â llys. Er hynny, mae'n briodol i'r OIA gyfeirio at y gyfraith a chanllawiau ar wahaniaethu er mwyn ffurfio barn ynghylch arfer da a phenderfynu a yw'r darparwr wedi ymddwyn yn deg. Felly, er enghraifft, efallai y byddem yn edrych i weld a yw darparwr wedi ystyried yn ddigonol a yw ei weithdrefnau yn rhoi myfyriwr anabl o dan anfantais sylweddol ac, os nad yw, efallai y byddem yn argymhell ei fod yn gwneud hynny. Ni fyddem, fodd bynnag, yn dod i gasgliad bod y darparwr wedi gwahaniaethu yn erbyn y myfyriwr.

O dan Ddeddf Addysg Uwch 2004, caniateir i fyfyrwyr a ddaw â chwyn at yr OIA ynglŷn â gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabled, gael rhagor o amser i gychwyn achos llys, yn ychwanegol at y terfynau amser arferol a osodir gan y llysoedd. Er hynny, dylech gofio y bydd y terfyn amser a osodir gan y llys yn dechrau o amser y digwyddiad gwreiddiol.

Sut rydw i yn cwyno wrth yr OIA?

Cyn y cewch gwyno wrth yr OIA, rhaid i chi yn gyntaf gwblhau gweithdrefnau cwyno neu apelio mewnol y darparwr. Wedi i chi wneud hynny, dylai'r darparwr anfon "Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau" atoch. Dylai'r llythyr hwn nodi'n glir y materion a ystyriwyd, penderfyniad terfynol y darparwr, a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwyno i'r OIA.

Wedi i chi dderbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, mae angen i chi anfon Ffurflen Gwyno'r OIA atom, wedi'i llenwi a'i llofnodi (ar gael yn www.oiahe.org.uk) o fewn y terfyn amser:

- Os yw dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar neu cyn 8 Gorffennaf 2015, tri mis yw'r terfyn amser.
- Os yw dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2015, 12 mis yw'r terfyn amser.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl yr edrychwn ar gŵyn heb fod y gweithdrefnau cwyno neu apelio mewnol wedi'u cwblhau.

Gweler ein gwefan (www.oiahe.org.uk) am ragor o wybodaeth am gyflwyno cwyn.

Pa wybodaeth y dylwn ei chynnwys gyda Ffurflen Gwyno'r OIA?

Dylech hefyd anfon:

- Copi o'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau
- Unrhyw ddogfennau neu dystiolaeth yr ydych yn dibynnu arnynt i gefnogi eich cwyn, e.e. copi o'r gŵyn neu'r apêl a gyflwynwyd i'r darparwr os yw ar gael. (Mae o gymorth i ni gael copi o'r gŵyn neu apêl a gyflwynwyd i'r darparwr, fodd bynnag, os nad ydych wedi cadw copi o'r gŵyn, apêl neu unrhyw wybodaeth berthnasol arall, peidiwch ag oedi cyn anfon eich ffurflen atom tra y byddwch yn mynd ar drywydd yr wybodaeth hon.)

Wrth lenwi Ffurflen Gwyno'r OIA dylech gyfeirio at y nodiadau cyfarwyddyd a gynhwysir yn y Ffurflen a disgrifio'r gŵyn mor glir a chryno ag y bo modd.

Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol. Ni allwn fod yn gyfrifol am ddogfennau a gollir yn y post ac fel rheol ni fyddwn yn anfon dogfennau yn ôl at fyfyrwyr ar ddiwedd ein hadolygiad.

A oes terfynau amser ar gyfer cwyno wrth yr OIA?

Oes. O 9 Gorffennaf 2015, rhaid inni dderbyn Ffurflen Gwyno'r OIA, wedi'i llofnodi, o fewn 12 mis o ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau; fel arall, bydd y gŵyn y tu allan i'r amser a ganiateir. Er enghraifft, os mai 7 Medi yw dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, dylem dderbyn Ffurflen Gwyno'r OIA erbyn 7 Medi'r flwyddyn ganlynol. Os mai 8 Gorffennaf 2015 neu'n gynt yw dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, dylem dderbyn y Ffurflen Gwyno o fewn tri mis i ddyddiad y Llythyr.

Er bod gennych 12 mis o ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, fel arfer mae'n well cwyno'n gynt na hynny. Mae'n bosibl na fydd modd i ni gynnig ond atebion cyfyngedig os ydych chi'n aros am flwyddyn cyn gwneud cwyn i'r OIA.

Fel rheol, ni fyddwn yn edrych ar gŵynion pan fydd y prif faterion y cwynir yn eu cylch wedi digwydd dros dair blynedd cyn i'r gŵyn gyrraedd yr OIA. Y rheswm am hyn yw ei bod yn debygol y bydd dogfennau pwysig wedi eu dinistrio ac atgofion yr unigolion dan sylw wedi pylu.

A yw'n costio unrhyw beth i gyflwyno cwyn?

Nac ydy. Ni chodir tâl am gwyno wrth yr OIA.

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi anfon Ffurflen Gwyno'r OIA atoch?

Ein cam cyntaf yw cydnabod y ffurflen a phenderfynu a yw'r gŵyn yn gymwys o dan Reolau'r Cynllun. Os nad yw'r gŵyn yn gymwys, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud pam, ac i roi manylion ar sut i apelio yn erbyn y penderfyniad. Am ragor o wybodaeth am gymhwysedd ac am yr hyn y gallwn a'r hyn na allwn edrych arno o dan ein Rheolau, gweler y Dewin Cwynion ar ein gwefan (<https://oiahe.org.uk/making-a-complaint-to-the-oia/can-the-oia-look-at-my-complaint-complaints-wizard.aspx>).

Os byddwn yn derbyn eich cwyn yn dilyn y sgrinio cychwynnol hwn, efallai y bydd y sawl sy'n ymdrin â'r yr achos yn:

- Ceisio datrys y gŵyn neu gyfryngu
- Gofyn i'r darparwr am ei sylwadau ar y gŵyn
- Gofyn i'r darparwr neu'r myfyriwr am ragor o wybodaeth
- Cyhoeddi Canlyniad mewn perthynas â'r gŵyn
- Cysylltu â'r myfyriwr i drafod y gŵyn a pha un a oes modd sicrhau'r canlyniad a ddymunir.
- Anfon gwybodaeth at y myfyriwr er mwyn cael ei sylwadau arni.

Byddwch yn cael gwybodaeth bellach am y broses adolygu wedi inni dderbyn eich cwyn. Ceir canllawiau pellach yn ein taflen, Beth Sy'n Digwydd Nesaf (<http://oiahe.org.uk/decisions-and-publications/leaflets.aspx>)

Sut y mae'r OIA yn adolygu cwynion?

Yr OIA sy'n cael penderfynu sut y bydd yr adolygiad yn mynd rhagddo a pha wybodaeth sydd ei hangen arno. Yn ystod pob cam, bydd y sawl sy'n ymdrin â'r achos yn ystyried a fydd yn bosibl datrys y gŵyn.

Bydd trafodwyr achosion yr OIA yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth hyd nes y byddant yn hyderus bod yr holl ddeunydd ganddynt i wneud penderfyniad ynghylch y gŵyn unigol.

Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i ystyried fy nghwyn?

Unwaith y mae gan yr OIA yr holl wybodaeth berthnasol, bydd y sawl sy'n ymdrin â'r achos yn ysgrifennu atoch a'r darparwr er mwyn dweud bod y gŵyn wedi'i ffeilio. Fel rheol, byddwn yn gorffen ein hadolygiad o fewn 90 diwrnod o dderbyn y ffeil cwyno cyflawn. Os byddwn yn ystyried bod y gŵyn yn gymhleth iawn, efallai y bydd yn cymryd mwy o amser.

Mae pob cwyn yn unigryw. Yn aml nid yw'n bosibl darparu ateb sydyn i ddatrys cwyn, a gall gymryd chwe mis neu ragor i ddod â chwynion cymwys i ben os bydd yn cymryd amser hir i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen neu os yw'r achos yn un cymhleth iawn.

A yw'r OIA yn cynnal gwrandawriadau llafar?

Yn ôl ein Rheolau mae modd dewis cael gwrandawriad llafar; fodd bynnag, yn ymarferol, rydym yn canfod nad oes angen gwneud hynny fel rheol. Os bydd trafodwr yr achos yn credu y gallai fod angen gwrandawriad neu os bydd myfyriwr yn gofyn am wrandawriad, bydd trafodwr yr achos yn cyfeirio'r gŵyn at ei reolwr.

Beth all yr OIA ei wneud ynglŷn â'm cwyn?

Ein swyddogaeth yw 'adolygu' penderfyniad terfynol y darparwr ac nid ailymchwilio i'r gŵyn fel rheol. Penderfynwn a oes Cyfiawnhad, Cyfiawnhad Rhannol neu Ddim Cyfiawnhad i'r gŵyn nad yw wedi'i datrys yn erbyn y darparwr. Byddwn yn ystyried a gymhwysodd y darparwr ei reoliadau ac a ddilynodd ei weithdrefnau ei hun yn briodol ai peidio, ac a oedd unrhyw benderfyniad a wnaed gan y darparwr yn rhesymol o ystyried yr holl amgylchiadau.

Os canfyddir bod Cyfiawnhad neu Gyfiawnhad Rhannol i gŵyn, efallai y byddwn yn gwneud Argymhellion. Er enghraifft, efallai y gofynnwn i'r darparwr adolygu neu newid ei weithdrefnau neu ei reoliadau; adolygu neu newid y ffordd y bydd yn trafod apeliadau a/neu gŵynion; rhoi dyfarniad ariannol, neu ailystyried yr apêl neu'r gŵyn. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gofyn i'r myfyriwr a'r darparwr wneud sylwadau ar ymarferoldeb yr Argymhellion a nodwyd yng Nghyanlyniad y Gŵyn cyn iddynt gael eu cwblhau. Mae Myfyrwyr yn rhydd i dderbyn Argymhellion yr OIA fel setliad llawn a therfynol, neu i wrthod ein Hargymhellion.

Os canfyddir bod Cyfiawnhad neu Gyfiawnhad Rhannol i gŵyn, fel rheol, byddwn yn ceisio rhoi'r myfyriwr yn ôl yn y sefyllfa y byddai ynnddi pe na bai'r weithred neu'r hepgoriad gan y darparwr wedi digwydd. Fodd bynnag, efallai na fydd hynny bob amser yn bosibl neu'n briodol ac, mewn achosion o'r fath, efallai y dyfarnwn iawndal, neu ateb arall. Nid rheoleiddiwr mohonom ac ni allwn gosbi na dirwyo darparwyr.

Bydd darparwyr fel arfer yn cydymffurfio â'n Hargymhellion trwy wneud cynnig i "setlo'r gŵyn yn llawn ac yn derfynol". Mae hyn yn golygu, os byddwch yn derbyn y cynnig, na fyddech yn gallu cynnal achos llys yn erbyn y darparwr ynglŷn â'r materion hynny. Os nad ydych yn derbyn penderfyniad neu Argymhellion yr OIA, nid yw'r ffaith bod yr OIA wedi adolygu eich cwyn yn eich atal rhag ceisio cael iawn trwy achos Llys. Ni allwn eich cyngori ynglŷn ag unrhyw gamau eraill y gallech eu cymryd.

Os rydym yn canfod nad oes Cyfiawnhad i gŵyn, mae'n bosibl y byddwn yn dal i wneud awgrymiadau ynghylch arferion da a/neu sylwadau i'r darparwr eu hystyried.

A oes yn rhaid i ddarparwr gydymffurfio â'ch penderfyniad?

Disgwylir i ddarparwr gydymffurfio â Phenderfyniadau'r OIA ac unrhyw Argymhellion yn llawn. Yn ein profiad ni, mae cydymffurfiaeth darparwyr yn rhagorol. Ystyrir diffyg cydymffurfio yn fater difrifol iawn a fydd yn cael ei ddwyn gerbron ein Bwrdd ac yn cael cyhoeddu'rwydd yn Adroddiad Blynyddol yr OIA. Nid oes yn rhaid i chi dderbyn ein penderfyniad na'n Hargymhellion.

A allaf dynnu fy nghwyn yn ôl?

Gallwch. Efallai y bydd amgylchiadau lle y byddwch yn dewis tynnu'ch cwyn wrth yr OIA yn ôl. Gallwch wneud hyn ar unrhyw adeg yn ystod y broses adolygu, fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd.

A allaf gael help i wneud cwyn?

Os bydd angen help neu gyngor arnoch i wneud cwyn, gallwch siarad â'ch undeb myfyrwyr neu'r Canolfan Cyngor Ar Bopeth leol <http://www.citizensadvice.org.uk> (CAB).

Gallwn ddarparu ein deunydd darllen mewn gwahanol fformatau. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn neu ein proses gwynion ar enquiries@oiahe.org.uk neu 0118 959 9813.

Mae'r OIA yn rhedeg Cynllun annibynnol ac ni all gyngori myfyrwyr ar sut i gwyno.

Beth os ydw i'n anfodlon â'r ffordd y cafodd fy nghwyn ei thrafod?

Beth bynnag fydd canlyniad y gŵyn, gobeithiwn y byddwch yn fodlon â lefel y gwasanaeth yr ydym yn ei darparu. Er hynny, os oes gennych unrhyw bryderon, trowch at ein gwefan am ragor o wybodaeth: <http://www.oiahe.org.uk/about-us/complaints-about-the-oia.aspx>.

**Second Floor
Abbey Gate
57-75 Kings Road
Reading
Berkshire RG1 3AB**

**Ffôn: 0118 959 9813
E-bost: enquiries@oiahe.org.uk
www.oiahe.org.uk
Twitter: @oiahe**